**ParkinSings Songwriter Brief**
**Jan 2026 – July 2026**

**Contracting organisation:** Choirs For Good
**Contact:** ruth@choirsforgood.com

**Introduction**

ParkinSings is a collaboration between **Parkinson's UK Cymru** and **Choirs For Good** to offer uplifting community choirs for people affected by Parkinson's and their carers in Wales.

Following a successful pilot and a further grant from Arts Council of Wales to continue the project, this next phase of ParkinSings (Sept 2025 – Aug 2026) will deepen our understanding of how group singing can benefit people living with Parkinson's and their loved ones, and explore ways to make the project sustainable into the future. As part of this exciting next step, we are looking to commission a **freelance songwriter** to lead a creative and collaborative song-writing process with our participants across our 3 choirs, resulting in a **bilingual ParkinSings anthem** to be premiered in summer 2026.

---

**About the Project**

Until August 2026, fortnightly ParkinSings rehearsals will run in three locations across Wales: **Bodelwyddan (Rhyl), Newport (Gwent), and Aberaeron (Ceredigion)**. Each group will be fully accessible to people with Parkinson's and their carers, led by professional community choir leaders from Choirs For Good.

The songwriting strand will sit within this wider delivery, working collaboratively with participants to create a song that reflects their experiences, voices, and community spirit. The process should be creative, inclusive, and joyful - enabling everyone to contribute, regardless of musical background or ability.

We anticipate that the final song will:

- Capture the essence of the ParkinSings journey and the Parkinson's community
- Be bilingual (Welsh/English)
- Be musically accessible for group singing (maximum of up to 3 parts of harmony)
- Offer scope for public performance

---

**What We're Looking For**

We are seeking a **freelance songwriter, composer or facilitator** who can:

- Design and deliver an in-person, inclusive co-writing process with participants in three choirs across Wales.
- Work closely with Choir Leaders and the Project Manager to ensure the creative process aligns with the choirs' abilities and ethos.
- Create a bilingual song that is musically and emotionally meaningful to the group.
- Capture participants' words, stories and ideas sensitively and authentically.
- Support musical learning and accessibility throughout the process.
- Provide lyrics, and a basic audio guide recording and accompaniment for Choir Leaders.
- Liaise with our Freelance External Evaluator where relevant to contribute to creative evaluation methods.

**Essential:**

- Proven experience in community-based songwriting or co-creation
- Understanding of inclusive facilitation (esp. working with people with health conditions or accessibility needs)
- Strong communication and organisational skills
- Empathy, warmth, and adaptability in community group settings
- Ability to travel across Wales for in-person delivery

**Strongly Desirable:**

- Ability to work in both Welsh and English
- Experience with community choirs or vocal ensemble writing
- Familiarity with Arts and Health contexts

---

**Timeline, Fees & Outputs**

**Contract period:** January – July 2026
**Total fee:** £1,800 (inclusive of planning, delivery, materials, and recording)

**Travel and accommodation:** There are additional funds available to cover travel and overnight stays where required. These costs will be booked and paid directly by Choirs For Good in consultation with the appointed artist.

The songwriter will not be expected to make any personal expenditure beyond what is covered by the artist fee.

**Expected outputs:**

- Delivery of up to 6 co-writing workshops (across the three choir groups)
- Final bilingual song (lyrics, melody, chords, and/or accompaniment) suitable for formal choral arrangement
- Audio guide / demo recording (simple vocal or piano guide)
- Short reflective statement (max. 500 words) on the creative process

**Performance:**
The completed song will be performed collectively at a public event in **Summer 2026** and may also feature in local choir performances and project documentation.

---

**How to Apply**

Please send:

- A **cover letter (max 2 pages)** outlining your approach to co-creation, relevant experience, and how you would facilitate inclusive songwriting for this group
- A **CV** or short artist bio
- Any links to one or two examples of previous songwriting or community projects

Email to **ruth@choirsforgood.com** by **Friday 12 December 2025**.

We particularly welcome applications from artists who are D/deaf, disabled, neurodivergent, Welsh-speaking, or from underrepresented backgrounds in the arts and health sector.


Choirs for Good

Parkinson's UK Cymru
Ar gyfer pob siwrnai Parkinson's
For every Parkinson's journey

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

**Briff Cyfansoddwr Caneuon ParkinSings**

**Ionawr 2026 - Gorffennaf 2026**

**Sefydliad contractio:** Choirs For Good
**Cyswllt:** ruth@choirsforgood.com

## Cyflwyniad

Mae ParkinSings yn gydweithrediad rhwng **Parkinson's UK Cymru** a **Choirs For Good** i gynnig corau cymunedol i godi calon ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan glefyd Parkinson, a'u gofalwyr, yng Nghymru.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a grant pellach gan Gyngor Celfyddydau Cymru i barhau â'r prosiect, bydd cam nesaf ParkinSings (Medi 2025 – Awst 2026) yn dyfnhau ein dealltwriaeth o sut y gall canu grŵp fod o fudd i bobl sy'n byw gyda chlefyd Parkinson a'u hanwyliaid, ac yn archwilio ffyrdd o wneud y prosiect yn gynaliadwy i'r dyfodol. Fel rhan o'r cam nesaf cyffrous hwn, rydym yn edrych i gomisiynu **cyfansoddwr caneuon llawrydd** i arwain proses gyfansoddi caneuon greadigol a chydweithredol gyda'n cyfranogwyr ar draws ein 3 chôr, gan arwain at **anthem ParkinSings ddwyieithog** a fydd yn cael ei pherfformio am y tro cyntaf yn haf 2026.

---

## Ynglŷn â'r Prosiect

Tan fis Awst 2026, bydd ymarferion ParkinSings yn cael eu cynnal bob pythefnos mewn tri lleoliad ledled Cymru: **Bodelwyddan (Y Rhyl), Casnewydd (Gwent), ac Aberaeron (Ceredigion)**. Bydd pob grŵp yn gwbl hygyrch i bobl â Parkinson's a'u gofalwyr, dan arweiniad arweinwyr côr cymunedol proffesiynol Choirs For Good.

Bydd y llinyn cyfansoddi caneuon yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach hon, gan gydweithio â chyfranogwyr i greu cân sy'n adlewyrchu eu profiadau, eu lleisiau a'u hysbryd cymunedol. Dylai'r broses fod yn greadigol, yn gynhwysol ac yn llawen - gan alluogi pawb i gyfrannu, waeth beth fo'u cefndir cerddorol neu eu gallu.

Rydym yn rhagweld y bydd y gân derfynol:

- Yn cipio hanfod taith ParkinSings a chymuned Parkinson's
- Yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg)
- Yn gerddorol hygyrch ar gyfer canu grŵp (hyd at 3 rhan o harmoni ar y mwyaf)
- Yn cynnig cyfle ar gyfer perfformiad cyhoeddus

---

## Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano

Rydym yn chwilio am **gyfansoddwr caneuon, cyfansoddwr neu hwylusydd llawrydd** sy'n gallu:

- Dylunio a chyflwyno proses gyd-ysgrifennu gynhwysol, wyneb yn wyneb, gyda chyfranogwyr mewn tri chôr ledled Cymru.
- Gweithio'n agos gydag Arweinwyr Côr a'r Rheolwr Prosiect i sicrhau bod y broses greadigol yn cyd-fynd â galluoedd ac ethos y corau.
- Creu cân ddwyieithog sy'n ystyrlon yn gerddorol ac yn emosiynol i'r grŵp.
- Cipio geiriau, straeon a syniadau'r cyfranogwyr mewn modd sensitif a dilys.
- Cefnogi dysgu a hygyrchedd cerddorol drwy gydol y broses.
- Darparu geiriau, a recordiad canllaw sain sylfaenol a chyfeiliant ar gyfer Arweinwyr Corau.
- Cysylltu â'n Gwerthuswr Allanol Llawrydd lle bo'n berthnasol i gyfrannu at ddulliau gwerthuso creadigol.

**Hanfodol:**

- Profiad profedig o gyfansoddi caneuon neu gyd-greu yn y gymuned
- Dealltwriaeth o hwyluso cynhwysol (yn enwedig gweithio gyda phobl â chyflyrau iechyd neu anghenion hygyrchedd)
- Sgiliau cyfathrebu a threfnu cryf
- Empathi, cynhesrwydd, a hyblygrwydd mewn lleoliadau grŵp cymunedol
- Y gallu i deithio ledled Cymru ar gyfer cyflwyno grwpiau wyneb yn wyneb

**Hynod Ddymunol:**

- Y gallu i weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Profiad gyda chorau cymunedol neu ysgrifennu ensemble lleisiol
- Cyfarwydd â chyd-destunau Celfyddydau ac Iechyd

---

**Amserlen, Ffioedd ac Allbynnau**

**Cyfnod y contract:** Ionawr – Gorffennaf 2026
**Cyfanswm y ffi:** £1,800 (gan gynnwys cynllunio, cyflwyno, deunyddiau a recordio)

**Teithio a llety:** Mae arian ychwanegol ar gael i dalu am deithio ac aros dros nos lle bo angen. Bydd y costau hyn yn cael eu bwcio a'u talu'n uniongyrchol gan Choirs For Good mewn ymgynghoriad â'r artist a benodir.

Ni ddisgwylir i'r cyfansoddwr caneuon dalu unrhyw gostau personol y tu hwnt i'r hyn a gwmpesir gan ffi'r artist.

**Allbynnau disgwyliedig:**

- Cyflwyno hyd at 6 gweithdy cyd-ysgrifennu (ar draws y tri grŵp côr)
- Cân ddwyieithog derfynol (geiriau, alaw, cordiau, a/neu gyfeiliant) sy'n addas ar gyfer trefniant corawl ffurfiol
- Canllaw sain / recordiad demo (canllaw lleisiol neu biano syml)
- Datganiad myfyriol byr (uchafswm o 500 gair) ar y broses greadigol

**Perfformiad:**
Bydd y gân orffenedig yn cael ei pherfformio ar y cyd mewn digwyddiad cyhoeddus yn **Haf 2026**, ac efallai y bydd hefyd yn ymddangos mewn perfformiadau côr lleol a dogfennaeth y prosiect.

---

**Sut i wneud cais**

Gofynnir ichi anfon y canlynol:

- **Llythyr eglurhaol (uchafswm o 2 dudalen)** yn amlinellu eich ymagwedd at gyd-greu, profiad perthnasol, a sut y byddech chi'n hwyluso cyfansoddi caneuon cynhwysol ar gyfer y grŵp hwn
- **CV** neu fywgraffiad byr o'ch gwaith fel artist
- Unrhyw ddolenni i un neu ddwy esiampl o brosiectau cyfansoddi caneuon neu gymunedol blaenorol

E-bostiwch y rhain at **ruth@choirsforgood.com** erbyn **dydd Gwener 12 Rhagfyr 2025**.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan artistiaid sy'n F/fyddar, yn anabl, yn niwroamrywiol, yn siaradwyr Cymraeg, neu sydd o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector celfyddydau ac iechyd.